

Read the following letters and answer the questions that follow.

Bryllan
Llanfawr
CD23 N12

Y Rheolwr
Gwesty'r Onnen
Brynbach
CD23 N14

Annwyl Reolwr,

Hoffwn wneud cais am y swydd a hysbysebwyd yn y Cymro'r wythnos ddiwethaf. Rydw i'n un deg wyth oed ac rydw i wedi gadael yr ysgol ers blwyddyn. Dechreuais i ar y cwrs Uwch Gyfrannol Cymraeg ond ces i waith mewn swyddfa Asiant Teithio cyn diwedd y flwyddyn. Rydw i wedi pasio TGAU mewn wyth pwnc:

Saesneg a Ffrangeg - A

Cymraeg, Drama, Technoleg - B

Mathemateg, Gwyddoniaeth a Daeryddiaeth - C

Roeddwn i'n gweithio mewn swyddfa Asiant Teithio am naw mis a mwynheuais i'r gwaith yn fawr. Yn anffodus, ces i fy ngwneud yn ddiwaith oherwydd cwtogi ar staff fis Chwefror diwethaf. Rydw i'n mwynhau cyfarfod pobl a delio â'u problemau. Mae gen i ddau frawd ac un chwaer ac rydw i'n gwarchod plant bach fy mrawd ar nos Sadwrn felly baswn i'n gallu helpu yn y creche.

Rydw i wedi dysgu Cymraeg ac wedi pasio arholiad Cymraeg ail iaith yn yr ysgol. Yn y swyddfa Asiant Teithio roeddwn i'n siarad Cymraeg â'r cwsmeriaid ac yn defnyddio'r cyfrifiadur a'r We i ddod o hyd i wyliau addas i'r cwsmeriaid.

Mae gen i lawer o ddiddordebau a fy mhrif ddiddordeb ydy chwarae hoci. Rydw i'n chwarae hoci i dîm cyntaf Brynbach ac rydyn ni'n chwarae bob prynhawn dydd Sadwrn.

Yr eiddoch yn gywir

Sioned Gest

6 Ffordd yr Eglwys

Brynbach

CD23 N15

Annwyl Reolwr,

Dw i'n ysgrifennu am y swydd oedd yn y papur lleol. Dw i'n un deg saith oed a dw i wedi bod yn gweithio i fy nhad fel prentis adeiladydd ar ôl gadael yr ysgol fis Mehefin diwethaf. Mae fy nheulu i gyd yn siarad Cymraeg ac mae gen i lawer o ffrindiau sy'n siarad Cymraeg. Dw i'n mynd i'r Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn ac yn aros yn y maes pobl ifanc. Mae'n grêt.

Mae gyda fi rownd bapur ar fore Sul a dw i wrth fy modd yn siarad gyda'r hen bobl a'u helpu nhw gyda jobs bach. Dw i'n cael arian am eu helpu nhw hefyd. Dw i'n gryf ac yn gallu cario bagiau pobl yn y gwesty achos dw i wedi bod yn cario brics i fy nhad.

Dw i wedi pasio pedwar pwnc yn TGAU a dyma nhw:

Technoleg, Celf - A

Cymraeg, Maths - D

Rydw i wrth fy modd yn chwarae rygbi ac rydw i'n chwarae i dîm ieuenctid y Sir. Rydw i hefyd yn hyfforddi plant bach i chwarae rygbi yn y clwb lleol. Dw i wrth fy modd gyda plant bach.

Dw i hefyd wedi bod yn helpu y tu ôl i'r bar yn y clwb rygbi a baswn i'n gallu helpu yn bar chi. Dw i'n gallu gweithio ar y penwythnos achos mae brawd bach fi'n gallu gwneud y rownd bapur.

Mae gyda ni gyfrifiadur adre a dw i'n dda gyda cyfrifidaur - yn enwedig rhaglen 'Office'. Dw i'n gallu dod am gyfweiliad unrhyw amser.

Diolch yn fawr

John Hughes

Darllenwch yr hysbyseb am swydd a'r ddau lythyr cais ac atebwch y cwestiynau canlynol YN GYMRAEG:

Read the job advert and answer the following questions IN WELSH:

1. Beth ydy'r swydd? [1]
2. Ble mae'r swydd? [1]
3. Pa sgiliau sydd angen i wneud y swydd? [3]
 -
 -
 -
4. Pam roedd Sioned wedi gadael yr ysgol? [2]
5. Ydy hi'n gweithio nawr? Pam? [2]
6. Rhestrwch cryfderau Sioned am y swydd: [10]
 -
 -
 -
 -
 -
7. Beth ydy gwendidau Sioned am y swydd? [4]
 -
 -
8. Beth ydy gwaith John? [1]

9. Rhestrwch cryfderau John am y swydd: [10]

-
-
-
-
-

10. Beth ydy gwendidau John am y swydd? [4]

-
-

11. Yn eich barn chi pwy ddylai gael y swydd a pham? [✓ = 4]